**ATODIAD 9**

# ASESIAD RISG

| Maes Risg | Coch | Ambr | Gwyrdd | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| Anghytundeb rhwng Partneriaid ynghylch cynigion gweithredol a strategol y Consortiwm wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen | X | | | Mae dogfen gytundebol y MD wedi'i datblygu gydag ymwneud llawn y partneriaid er mwyn gwneud i ffwrdd â'r risg o fethu gweithredu. Mae'r ddogfen yn cynnwys gweithdrefn ddatrysiadau pe bai anghydfod yn codi. Felly, bydd y partneriaid yn arwyddo ac yn ymrwymo ar ddechrau'r prosiect i'r gweithgareddau, y canlyniadau a'r cynigion, eu rôl hwy ac i'r egwyddorion cydweithio a nodwyd.<br>Mae protocolau ariannol rhwng sefydliadau hefyd wedi'u sefydlu ac wedi'u cyd-gytuno er mwyn galluogi i'r dysgwr ddilyn ei ddewis-gyrsiau ble bynnag y maent i'w cael. |
| Datblygu'r Tîm Rhithwir | X | | | Mae dogfen gytundebol y MD wedi'i datblygu gydag ymwneud llawn y partneriaid er mwyn gwneud i ffwrdd â'r risg o fethu gweithredu.. Mae'r partneriaid eisoes wedi cytuno y bydd eu harbenigeddau trwy'r aelodau staff priodol ar gael i'r prosiect yn ôl y gofyn. |
| Personél | | X | | Mae'n hollbwysig fod y Consortiwm yn cael ei gefnogi gan dîm priodol o weithwyr proffesiynol sy'n deall gofynion dysgu ôl-16; strwythur cyfredol cynllunio a gweithredu ôl-16 yn ogystal â'r cynigion hyn i drawsnewid y system. Bydd y partneriaid yn cyfrannu'n llawn at y broses recriwtio (gan gynnwys secondiadau arfaethedig) i sicrhau bod y bobl sy'n meddu ar y sgiliau gorau a'r rhai mwyaf priodol yn gweithio ar y prosiect. Bydd prosesau recriwtio safonol y sector cyhoeddus yn cael eu mabwysiadu i'r diben hwn, gan leihau'r risgiau. Mae hyn yn parhau i fod yn her i'r |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Partneriaid ac mae yma elfen o risg – bydd hyn yn cael ei liniaru drwy sicrhau bod staff perthnasol yn cael eu hadnabod o fewn yr 16 sefydliad sy'n bartneriaid a'u bod yn ymwybodol o'r cyfleoedd. |
| Cyllid | | X | | Mae materion toriadau yn y sector cyhoeddus yn peri pryder. Fodd bynnag, mae'r partneriaid wedi cytuno i gyd-ariannu am y cyfnod llawn a bydd ymrwymiad ariannol pob partner am gyfnod llawn y prosiect yn cael ei gadarnhau drwy gyfrwng dogfen gytundebol ffurfiol y MD. |
| Gwerth ychwanegol ddim yn amlwg i'r: <br>- Dysgwyr | | | X | Ystyrir bod y risg o beidio ag ennill buddion cadarnhaol i'r dysgwyr yn un isel. Fodd bynnag, mae'n bosib fod y gallu i weithredu datrysiadau arloesol yn anos i'w gyflawni yn y tymor byr. Bydd angen i'r Bartneriaeth ddatblygu strategaethau penodol (wedi'u haddasu i'r pwrpas) i ymdrin â'r materion hyn a bydd hyn yn rhan ffurfiol o'r broses. Mater o amseru yw hyn, ac mewn gwirionedd fe all gymryd dwy flynedd i'r prosiect gyflawni ei amcanion yn llawn. Mae hyn yn peri risg bychan i nodau cyffredinol y prosiect. |
| - Darparwyr | | X | | Disgwylir i effaith gyffredinol y prosiect fod yn un hynod o gadarnhaol o ran lleihau dyblygu ac ychwanegu gwerth. Credir ei bod hi'n debygol y bydd rhai'n elwa ac eraill yn colli ar yr ymylon wrth i rôl cynllunio strategol a gweithredu'r Bartneriaeth Ddysgu ddatblygu i'w lawn botensial. Bydd yr arian a ymgeisiwyd amdano drwy'r cais Ewropeaidd i reoli'r newid yn cael ei ddefnyddio'n rhannol i alluogi'r sefydliadau hynny sydd dan fygythiad i addasu i'r newid ac i |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | adnabod cyfleoedd am ddatblygiadau newydd. |
| - Partneriaid eraill | | | X | Yn unol â'r Dysgwyr (gweler y sylwadau uchod). |
| 1. Y gymuned ehangach | X | | | Mae newidiadau addysgol wedi ennyn ymateb cymunedol cryf yn ddiweddar, a hynny ym mhob rhan o Gymru, yn bennaf oherwydd cynigion i gau ysgolion. Nid yw'r prosiect hwn yn ymwneud â chau ysgolion – bydd yn sefydlu system drydyddol, yn hytrach na sefydliad trydyddol. Bydd yn cael ei gwneud yn glir i'r gymuned ehangach y bydd y system newydd yn defnyddio arbenigedd darparwyr presennol mewn modd na fydd yn ei hun yn tanseilio hyfywdra y ddarpariaeth oed 11-16 nac yn gwneud i ffwrdd â chweched dosbarth o fewn ysgolion. Ar yr un pryd, mae arian wedi'i glustnodi o fewn y cais er mwyn ymdrin â'r materion a ystyrir i fod yn rhwystrau i newid ac i liniaru'r risg. |
| Deilliannau ac Effeithiau | | | X | Ystyrir bod y risg o beidio â chyflawni'r deilliannau a'r effeithiau a nodwyd yn un isel. Bydd data ansoddol yn cael ei gasglu drwy gydol y prosiect a bydd trefniadau monitro ac adrodd cadarn yn eu lle i asesu cynnydd yn erbyn y targedau.<br><br>Yn ogystal, bydd cyfarfodydd adolygu cynnydd yn cael eu cynnal pob chwarter gyda WEFO. |
| Cymorth Gwladwriaethol | | | X | Nid oes marchnad yn bodoli ar gyfer rôl arfaethedig y Bartneriaeth Ddysgu, a thra gallasai asiantaeth sector preifat fod yn bosib, byddai angen caniatâd statudol i wneud hyn, ac nid yw hynny mewn lle. Felly, ystyrir nad oes mater Cymorth Gwladwriaethol o unrhyw faint, os o gwbl, ynghlwm â'r posiect. |